

MEINI PRAWF CYMERADWYO AR GYFER TGAU BUSNES



GORFFENNAF 2016

Cynnwys

	<u>Tudalen</u>
Cyflwyniad	1
Nodau ac amcanion	2
Cynnwys pwnc	2
Gwybodaeth a dealltwriaeth	2
Sgiliau	5
Amcanion asesu	6
Cynllun asesu	6

Mae hon yn **Ddogfen Reoleiddio** o dan **Amod B7 Amodau Cydnabod Safonol Dros Dro**¹: *Cydymffurfio â Dogfennau Rheoleiddio*

¹ <http://qualificationswales.org/regulation/monitoring-awarding-bodies/?lang=cy&>

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer TGAU Busnes. Datblygwyd y rhain yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymgynghori â'r cyhoedd. Maent yn cynnwys y gofynion y mae'n rhaid i gorff dyfarnu eu bodloni wrth ddatblygu'r fanyleb a'r deunyddiau asesu ar gyfer y cymhwyster.

Daw'r meini prawf cymeradwyo yn y ddogfen hon i rym o 18 Gorffennaf 2016.

Dim ond cymwysterau sy'n bodloni'r holl ofynion a nodir yn y ddogfen hon ynghyd â'r rheini a nodir ym *Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TGAU*² a'r Amodau Cydnabod Safonol Dros Dro³ y bydd Cymwysterau Cymru yn eu cymeradwyo. Wrth ddatblygu'r cymwysterau i fodloni'r gofynion hyn rhaid i gyrff dyfarnu ystyried Fair Access by Design⁴ (cyhoeddiad Saesneg yn unig).

Pan fo gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo Pwnc a nodir yn y ddogfen hon yn wahanol i'r rhai a ragnodir ym Meini Prawf Cymwysterau TGAU a'r Amodau Cydnabod Safonol Dros Dro, y gofynion yn y ddogfen hon fydd drechaf.

² <http://qualificationswales.org/regulation/approved-and-designated-qualifications/gcse-approval-criteria-july-2016/?lang=cy&>

³ <http://qualificationswales.org/regulation/monitoring-awarding-bodies/?lang=cy&>

⁴ <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150727-fair-access-by-design-en.pdf>

Nodau ac amcanion pwnc

1. Rhaid i fanylebau TGAU Busnes alluogi dysgwyr i wneud y canlynol:
 - 1.1. mynd i'r afael yn weithredol ag astudio busnes a datblygu fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol ac fel meddylwyr beirniadol a myfyriol â meddyliau ymholgar;
 - 1.2. defnyddio agwedd ymholgar a beirniadol i wahaniaethu rhwng ffeithiau a barn ac i adeiladu dadleuon a llunio barn wybodus;
 - 1.3. datblygu a chymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau busnes at faterion cyfoes mewn amrywiaeth o gyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol;
 - 1.4. gwerthfawrogi amrywiaeth o safbwyntiau o ran beth yw effeithiau busnes ar y gymdeithas ehangach;
 - 1.5. ystyried i ba raddau y gall gweithgaredd busnes fod yn foesegol a chefnogi datblygiad cynaliadwy;
 - 1.6. datblygu a chymhwyso sgiliau meintiol sy'n berthnasol i fyd busnes gan gynnwys defnyddio a dehongli data;
 - 1.7. cymhwyso a chysylltu gwybodaeth a dealltwriaeth â chyfleoedd menter a busnes gwirioneddol, prosesau gwneud penderfyniadau a sefyllfaoedd.

Cynnwys pwnc

2. Rhaid i fanylebau TGAU Busnes adlewyrchu nodau ac amcanion y pwnc yn y cynnwys.

Gwybodaeth a dealltwriaeth

3. Rhaid i fanylebau TGAU Busnes ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:
 - 3.1. Gweithgarwch busnes
 - 3.1.1. diben gweithgarwch busnes, rôl menter busnes a mentergarwch, a natur ddeinamig byd busnes;
 - 3.1.2. yr amgylchedd gystadleuol ac effaith risg a gwobr ar weithgarwch busnes;
 - 3.1.3. diben cynllunio gweithgarwch busnes, gan gynnwys rôl cynllun busnes a'i bwysigrwydd;
 - 3.1.4. y ffactorau sy'n dylanwadu ar leoliad busnes, gan gynnwys agosrwydd at farchnad, llafur a deunyddiau;
 - 3.1.5. y mathau o berchenogaeth busnes, gan gynnwys busnesau newydd a'r cysyniad o atebolrwydd cyfyngedig;

- 3.1.6. nodau ac amcanion busnes, sut a pham eu bod yn wahanol o fusnes i fusnes, a sut a pham eu bod yn newid wrth i fusnesau ddatblygu;
- 3.1.7. dulliau o dyfu busnes, gan gynnwys twf organig a thwf allanol;
- 3.1.8. rhanddeiliaid busnes, gan gynnwys perchenogion, cyflogeion a chwsmeriaid; eu gwahanol amcanion, y ffyrdd y cânt eu heffeithio gan weithgarwch busnes a'r ffyrdd y maent yn effeithio ar fusnes;
- 3.1.9. natur ryngddibynnol gweithrediadau busnes, cyllid, marchnata ac adnoddau dynol o fewn cyd-destun busnes.

3.2. Dylanwadau ar fusnesau

- 3.2.1. pwysigrwydd dylanwadau allanol ar fusnesau a'r ffordd mae busnesau'n newid mewn ymateb i'r dylanwadau hyn, gan gynnwys:
 - i. sut mae technoleg, gan gynnwys e-fasnach a chyfathrebu digidol, yn dylanwadu ar weithgarwch busnes;
 - ii. effaith ystyriaethau moesegol ac amgylcheddol ar fusnesau, gan gynnwys cynaliadwyedd;
 - iii. effaith yr hinsawdd economaidd ar fusnesau, gan gynnwys newidiadau mewn lefelau incwm defnyddwyr a diweithdra;
 - iv. effaith globaleiddio ar fusnesau, gan gynnwys sut mae busnesau'n cystadlu'n rhyngwladol;
 - v. effaith deddfwriaeth ar fusnesau, gan gynnwys cyfraith cyflogaeth a chyfraith defnyddwyr.

3.3. Gweithrediadau busnes

- 3.3.1. yr hyn sy'n gysylltiedig â gweithrediadau busnes, eu rôl o fewn cynhyrchu nwyddau a darparu gwasanaethau, a'r ffordd maent yn dylanwadu ar weithgarwch busnes, gan gynnwys:
 - i. effaith gwahanol fathau o brosesau cynhyrchu ar fusnesau;
 - ii. rôl caffael ac effaith penderfyniadau cyflenwi a logistaidd ar fusnesau;
 - iii. y cysyniad o ansawdd a'i bwysigrwydd i fusnes, gan gynnwys cynhyrchu nwyddau a darparu gwasanaethau;
 - iv. y broses werthu a phwysigrwydd darparu gwasanaeth cwsmeriaid da i fusnesau, gan gynnwys gwybodaeth am gynhyrchion, ymgysylltu â chwsmeriaid a gwasanaeth ar ôl gwerthu.

3.4. Cyllid

- 3.4.1. diben y swyddogaeth gyllid, ei rôl o fewn busnes a'r ffordd mae'n dylanwadu ar weithgarwch busnes, gan gynnwys:

- i. pa wahanol ffynonellau o gyllid busnes sydd ar gael a'u haddasrwydd ar gyfer busnesau newydd a busnesau sefydledig;
- ii. y cysyniad o refeniw, costau, elw a cholled, gan gynnwys adennill costau a chymarebau elw gros ac elw net;
- iii. pwysigrwydd arian parod i fusnes, y gwahaniaeth rhwng arian parod ac elw, a rhagamcanion arian parod;
- iv. defnyddio gwybodaeth ariannol i ddeall perfformiad busnes a gwneud penderfyniadau busnes

3.5. Marchnata

3.5.1. diben marchnata, ei rôl o fewn busnes a'r ffordd mae'n dylanwadu ar weithgarwch busnes, gan gynnwys:

- i. pwysigrwydd nodi a deall eu cwsmeriaid i fusnesau;
- ii. sut mae busnesau'n defnyddio segmentu i dargedu cwsmeriaid;
- iii. diben a dulliau gwaith ymchwil i'r farchnad, a'r defnydd o ddata ymchwil i'r farchnad ansoddol a meintiol;
- iv. y gymysgedd farchnata a phwysigrwydd pob un o'r pedair elfen – pris, cynnyrch, hyrwyddo, a lleoliad – a'r ffordd maent yn gweithio gyda'i gilydd;
- v. sut y caiff y gymysgedd farchnata ei defnyddio i lywio penderfyniadau busnes a'u rhoi ar waith.

3.6. Adnoddau dynol

3.6.1. diben adnoddau dynol, ei rôl o fewn busnes a'r ffordd mae'n dylanwadu ar weithgarwch busnes, gan gynnwys:

- i. sut a pham bod gan fusnesau strwythurau trefniadol gwahanol, gan gynnwys pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol, gwahanol rolau a chyfrifoldebau swydd, a gwahanol ffyrdd o weithio;
- ii. sut mae busnesau'n recriwtio pobl, gan gynnwys dulliau a ddefnyddir i ddiwallu gwahanol anghenion busnes;
- iii. pwysigrwydd cadw ac ysgogi cyflogeion a sut mae busnesau'n cyflawni hyn, gan gynnwys dulliau ariannol ac anariannol;
- iv. sut a pham bod busnesau'n hyfforddi ac yn datblygu eu cyflogeion.

Sgiliau

4. Rhaid i fanylebau TGAU mewn Busnes ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr, gan ddefnyddio eu gwybodaeth a dealltwriaeth, wneud y canlynol:
 - 4.1. defnyddio terminoleg busnes i nodi ac egluro gweithgarwch busnes;
 - 4.2. cymhwyso cysyniadau busnes i gyd-destunau cyfarwydd ac anghyfarwydd;
 - 4.3. datblygu sgiliau datrys problemau a gwneud penderfyniadau sy'n berthnasol i fusnes;
 - 4.4. ymchwilio, dadansoddi a gwerthuso cyfleoedd a materion busnes;
 - 4.5. gwneud penderfyniadau y gellir eu cyfiawnhau gan ddefnyddio data ansoddol a meintiol, gan gynnwys eu dewis, eu dehongli, eu dadansoddi a'u gwerthuso, a chymhwyso sgiliau meintiol priodol.

5. Rhaid i TGAU Busnes gael cynnwys pwnc sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr gymhwyso amrywiaeth o dechnegau mathemategol mewn cyd-destun busnes, gan gynnwys cyfrifo:
 - 5.1. canrannau a newidiadau mewn canrannau;
 - 5.2. cyfartaledd;
 - 5.3. refeniw, costau ac elw;
 - 5.4. cymarebau maint elw gros a maint elw net;
 - 5.5. rhagolygon llif arian, gan gynnwys cyfanswm costau, cyfanswm refeniw a llif arian parod net.

6. Rhaid i TGAU Busnes gynnwys meini prawf pwnc y cymhwyster sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddysgwr ddeall sgiliau meintiol sy'n cynnwys dehongli data meintiol mewn cyd-destunau busnes, i gefnogi, llywio a chyfiawnhau penderfyniadau busnes, gan gynnwys:
 - 6.1. gwybodaeth o graffiau a siartiau;
 - 6.2. cymarebau proffidoldeb (maint elw gros a maint elw net);
 - 6.3. data ariannol, gan gynnwys elw a cholled, a rhagolygon llif arian;
 - 6.4. data marchnata, gan gynnwys data ymchwil i'r farchnad;
 - 6.5. data'r farchnad gan gynnwys cyfran y farchnad, newidiadau mewn costau a newidiadau mewn prisiau.

Amcanion asesu

7. Rhaid i'r asesiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth, a'r sgiliau sy'n ofynnol ym manyleb TGAU Busnes dargedu'r amcanion asesu canlynol yn unol â'r pwysoliadau a nodir:

Amcan	Gofynion	Pwysoliad
AA1	Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau a materion busnes	35%
AA2	Cymhwysio gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau a materion busnes at amrywiaeth o gyd-destunau busnes	35%
AA3	Dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth a materion busnes er mwyn dangos dealltwriaeth o weithgarwch busnes, llunio barn resymol a dod i gasgliadau	30%

Cynllun asesu

8. Caiff y cymhwyster TGAU Busnes ei asesu'n ffurfiol drwy arholiadau yn unig.
9. Rhaid i TGAU Busnes bennu o leiaf ddeg y cant i asesu sgiliau meintiol sy'n cynnwys cyfrifiadau a dehongli data meintiol.
10. Ni chaiff TGAU Busnes fod yn haenog.
11. Rhaid i TGAU Busnes fod yn llinol.

**Rhagor o
wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Ymholiadau
Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Lôn Pencarn
Parc Imperial
Coedcernyw
Casnewydd
NP10 8AR

ymholiadau@cymwysteraucymru.org